



Ymunwch â chymuned o arloeswyr tebyg i chi





Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (CAMA)

Bydd Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn cynnwys cyfleusterau ac arbenigedd o ansawdd byd-eang i'r diwydiant technoleg amaeth a'r sector biowyddoniaeth.

Bydd y campws £40.5m hwn, rhwng mynyddoedd Cambria a Môr Iwerddon, yn darparu amgylchedd blaengar lle y gall cydweithredu rhwng busnes a'r byd academiaidd ffynnu.

Bydd Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn cynnig ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi arloesedd, gan alluogi mentrau masnachol i dyfu, ffynnu a sbarduno twf economaidd yn y sectorau bwyd a diod, bio-brosesu a biotechnoleg yng Nghymru a thu hwnt.

Cyfleusterau a Gynlluniwyd



Bwydydd y Dyfodol



Bio-brosesu a Bio-buro



Gwyddor Ddadansoddol



Gofod Swyddfa



Canolbwyt y Campws

Bwydydd y Dyfodol

Amgylchedd i safon bwyd ar gyfer profi molecwlaidd, dilysu a gwella deunyddiau presennol a gwreiddiol fel bwydydd, gan gynnwys cynnwys maethlon, bywyd silff a dewisiadau defnyddwyr.



Diogelwch, ansawdd a gwelliant bwyd:

- **Storio a pheycynnu:** storio, lapio a phacio i asesu effeithiau modiwlleiddio amgylchedd thermol ac atmosfferau wedi'u haddasu ar fywyd silff cig coch, dofednod, cynnyrch llaeth a chynhyrchion hylifol eraill.

- **Nodweddion bwyd:** mesur nodweddion ffisegol bwydydd hylifol a solet gan gynnwys lliw, pH, rheoleg a chryfder tynol; adnabyddiaeth microbig ac archwilio llwythiadau microbig ac ymyriadau gwrth-ficrobig newydd.
- **Ansawdd bwyd a gwerth maethlon:** proffilio, dilysu a chefnogi honiadau cynnyrch mewn modd cynhwysfawr. Dadansoddiadau gan gynnwys asidau brasterog, lipidau a dadansoddiadau micro a macrofaetholyn, cynhyrchion a fitaminau ocsidiad, ffactorau ansawdd gros a chynnwys ffibr, cyfanswm elfennau mwnol a hybrin.

Archwilio deunyddiau bwyd newydd:

- **Cydrannau gwerth uchel o ffynonellau amrywiol:** llwyth brosesu o fio-mas i safon bwyd (cnydau bwyd) a ffyrdiau gwastraff ac

echdynnu cemegau gwerth uchel a chydannau bwyd.

- **Darganfyddiad bioactif:** dadansoddiadau cyffredinol o ymarferoldeb cynhyrchion naturiol, deunyddiau bwyd a chynhyrchion bwyd, gan gynnwys darganfod a phroffilio metabolion bioactif ar eglurdeb uchel iawn, meintoliad metabolion mewn cnydau a bwydydd a datblygiad prawf dadansoddol newydd.

Profi defnyddwyr:

- **Blas, ansawdd, arogl a mwyl:** bythau synhwyraidd a wasanaethir gan gegin benodol sy'n cynnwys system ymateb cyfrifiadurol ar gyfer casglu a choladu data amser real, ac amgylchedd proffesiynol i gynnal paneli profi defnyddwyr.



Bio-brosesu a Bio-buro

Cyfleuster ar raddfa beilot ar gyfer echdynnu, dadansoddi a gwneud y gorau o gemegolion o ddeunyddiau bio-mas a llif gwastraff gyda biotechnoleg diwydiannol cyfannol ac amgylchedd i safon bwyd.

Prosesu bio-màs i mewn i gynhyrchion tanwydd a bwyd:

- **Prosesu Sylfaenol:** ffracsiynu deunydd crai gwlyb a melino, a dwysau deunydd crai sych. Gwrthdro parhaus o ddulliau cyfredol er mwyn echdynnu bio-mas llwyth mewn modd dyfrillyd effeithlon iawn a sychu'n barhaus gyda thanciau dal oer ar y safle.
- **Prosesu i Lawr y Ffrwd:** ffracsiynu maint solidau mewn daliant a solidau toddedig a gwahanu solet-hylif o ddeunydd crai hylifol a thyniadau a chrynodeiadau o ansawdd i safon bwyd, yn barhaus.
- **Ymwaith:** dulliau ymweithiol confensiynol a ffyrdd biotechnoleg gwreiddiol o ymdrin ag ymwaith – ar raddfa ddiwydiannol berthnasol.
- **Gorffen Cynnyrch:** ardal hylendid uchel ar gyfer gorffen a bagio cynhyrchion ar raddfa fach mewn amgylchedd reoledig sy'n addas ar gyfer cymwysiadau bwyd, fferyllol a chosmetigau.

Catalyddion newydd a gwella proses:

- **Bio-chwilota, echdynnu a dadansoddi sampl:** echdynnu a ffracsiynu deunydd crai bio-buro i asesu cydrannau gwerth mewn cymysgeddau pur a chymhleth ar ystod o raddfeydd. Mae dadansoddiadau yn cynnwys manylion a meini prawf tanwydd ac asesu honiadau cynnyrch. Cyfleusterau crisialu cynnyrch naturiol i archwilio purdeb a hunaniaeth.
- **Optimeiddiad proses:** biotechnoleg diwydiannol wedi'i gyflwynu gan ddefnyddio'r platfformau ffenoteipio ac ymwaith diweddaraf ar gyfer mathau microbaidd newydd, cadarn sy'n gweithio ar raddfa ddiwydiannol. Cyfarparedig ar gyfer cyfleusterau cymwysiadau microbiolegol aerobig ac anaerobig, yn cynnwys dulliau bioleg synthetig.

Technoleg amaeth y dyfodol:

- **Deunyddiau carbon isel (gwyrdd) newydd a ffermio fertigol:** technoleg ar gyfer datblygu deunyddiau carbon isel newydd ac optimeiddio ffermio fertigol ac isadeileddau gwyrdd. Optimeiddio goleuo a maetholion mewn systemau hydroponig a llwyfannau newydd eraill ar gyfer cynydu meithrin, yn nodweddu ansawdd maethol i gefnogi ffermio fertigol ac archwilio isadeileddau gwyrdd newydd.

Gwyddoniaeth Ddadansoddol

Ar gyfer dadansoddi amsugnad maetholion a darganfod a dilysu biofarwyr ymarferoldeb bwyd.

- **Biofarwyr amsugnad maetholion:** dadansoddiadau meintiol yn defnyddio technolegau eglurdeb uchel, mewnbwn uchel. Cynorthwyo datblygiad biofarwyr a phroffion diagnostig o samplau clinigol, gan gynnwys meintoliad metabolyn a bioactif mewn wrin a gwaed ac olion bysedd metabolyn mewn bio-hylifau dynol, cynydu a samplau bwyd. Dilysu biofarwyr amsugnad gwael a chlefyd.

Cefnogir â phrosesau ar gyfer ceisio cymeradwyaeth foesegol a chyfarparedig â chyfyngiant bioberygl ar gyfer trin meinwe a biohylifau dynol gyda chyfleuster bio-fanc -80°C cysylltiedig.

- **Cemeg Dadansoddol:** profion cyfansoddiadol o ystod o ddeunyddiau gan gynnwys priddoedd, planhigion, silwair, bwydydd anifeiliaid, cynydu ynni a phorthiant. Yn dilyn gweithdrefnau rheoli ansawdd llym trwy gynlluniau profi perfformiad annibynnol ac achrediad UKAS i ISO 17025.
- **Dadansoddi a dehongli data:** mynediad i glystyrau Cyfrifiaduro Perfformiad Uchel a phrosesu data o'r radd flaenaf.





Ymunwch â chymuned o arloeswyr tebyg i chi



Canolbwynt y Campws

Mannau Cyfarfod a Digwyddiadau

Canolbwynt y Campws – man cymdeithasol, croesawgar ar gyfer digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol, i helpu i sbarduno trafodaethau posib, annog meddwl yn greadigol a datrys problemau – mewn cymuned gydweithredol gyda chyfleusterau caffi a manau swyddfa a labordy hyblyg ar gyfer arloeswyr sy'n meddwl yn yr un ffordd.

Gofod Swyddfa

Adeilad Swyddfeydd y Campws Arloesi

Cartref ein cymuned fusnes newydd – dewch i ymuno â ni – ar gael nawr!

Mae Adeilad Swyddfeydd Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn cynnwys 17 o swyddfeydd all gael eu rhenti, sy'n amrywio o ran maint o 8m² i 23m². Mae ein swyddfeydd a wasanaethir yn llawn yn addas ar gyfer 1 i 4 o bobl a phob swyddfa yn olau gyda golygfeydd agored.

Mae'r adeilad wedi ei orffen i safon broffesiynol i alluogi entrepreneuriaid a busnesau i dyfu a ffynnu.

Mae gan ein Adeilad Swyddfeydd ddigon o lefydd parcio, WiFi cyflymder uchel ac ystafelloedd cyfarfod ei hun. Mae'r swyddfeydd ar gael ar gyfer lesau byr ar raddfa llawn a rhan amser.





Gofod Swyddfa Pecynnau Aelodaeth ar gael



(pris m² y mis)



(£90 y mis)



(£50 y mis)

Pecynnau aelodaeth

Swyddfa breifat, broffesiynol newydd sbon sy'n olau ac eang	●		
Desg bendol pan fyddwch yn gweithio ar y Campws neu'n ymweld ag ef		●	
Presenoldeb amser-llawn mewn cymuned o fusnesau a gwyddonwyr	●		
Glanhau, cynnal a chadw, cyfleusterau sbwriel ac ailgylchu	●	●	
Amgylchedd gweithio proffesiynol ymhlith busnesau o'r un anian	●	●	
Hysbyseb i'ch cwmni ar wefan AIEC	●	●	●
Cyfeiriad masnachu	●	●	●
Mynediad i ddigwyddiadau ar y campws	●	●	●
Lle i gynnal cyfarfodydd â chydweithwyr a chydweithredwyr	●	●	●
Dechrau gweithio ar unwaith	●	●	●

Aelod Preswyl

Swyddfa wedi'i dodrefnu'n llawn gyda llinell ffôn a mynediad electronig 24/7 i'r adeilad ac oriau gwaith anghyfyngedig. Bydd gan bob aelod preswyl swyddfa breifat y gellir ei chloi sydd â gwres, trydan, golau ar synhwyrdd, diogelwch a rhyngwyd cyflymder uchel a Wi-Fi.

Bydd gan aelodau preswyl hefyd fynediad rhad ac am ddim i ystafelloedd cyfarfod o safon uchel a gofodau ymlacio gan gynnwys cegin a rennir a chaffi ar y safle, a lle penodol i barcio car.

Manteision:

- Swyddfa breifat, broffesiynol, newydd sbon sy'n olau ac eang
- Presenoldeb amser-llawn mewn cymuned o fusnesau a gwyddonwyr
- Gweithio yn yr un lleoliad a Thîm AIEC
- Symud i mewn yn syth a dechrau gweithio ar unwaith
- Mynediad i ddigwyddiadau
- Hysbyseb i'ch cwmni ar wefan AIEC o dan 'Aelod Preswyl'
- Glanhau a chynnal a chadw yn rhan o'r pris
- Cyfleusterau sbwriel ac ailgylchu

Aelod Cyswllt

Gofod swyddfa a rennir, wedi'i dodrefnu'n llawn gyda llinell ffôn benodol. 40 awr o fynediad electronig i'r adeilad bob mis yn ystod oriau gwaith yn ogystal â gwres, trydan, golau ar synhwyrdd, diogelwch a rhyngwyd cyflymder uchel a Wi-Fi.

Bydd aelodau cyswllt hefyd yn cael 4 awr o fynediad rhad ac am ddim i gyfleusterau ystafell gyfarfod o safon uchel a gofodau i ymlacio gan gynnwys cegin a rennir a chaffi ar y safle, a lle penodol i barcio car.

Manteision:

- Desg bendol pan fyddwch yn gweithio ar y Campws neu'n ymweld ag ef
- Gweithio yn yr un lleoliad a Thîm AIEC
- Symud i mewn yn syth a dechrau gweithio ar unwaith
- Mynediad i ddigwyddiadau ar y Campws
- Cyfeiriad masnachu ac amgylchedd gwaith proffesiynol
- Hysbysebu'ch cwmni ar wefan AIEC
- Glanhau a chynnal a chadw'n rhan o'r pris
- Cyfleusterau sbwriel ac ailgylchu

Aelod Rhithiol

Mynediad i gymuned ar-lein a rhwydwaith AIEC yn ogystal â'n hystafelloedd cyfarfod pan fyddwch yn ymweld â'r campws, a chyfeiriad masnachu gyda lle diogel i gadw post.

Manteision:

- Cyfeiriad masnachu a lle diogel i gadw post
- Hysbyseb i'ch cwmni ar wefan AIEC o dan 'Aelodau Rhithiol'
- Mynediad i Ystafelloedd Cyfarfod – ceir 50% o ostyngiad ar y cyfraddau arferol ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau – mae'n rhaid eu harchebu, ac maent yn ddibynnol ar argaeledd




Mentrau eraill wedi'u cydleoli gyda Campws Arloesi a Menter Aberystwyth



Canolfan Ragoriaeth
BEACON
www.beaconwales.org



Canolfan Genedlaethol
Ffenomeg Planhigion
www.plant-phenomics.ac.uk



Uned Ymchwil Asesu Lles
ac Iechyd
www.waru.org.uk



Sefydliad y Gwyddorau
Biologol, Amgylcheddol
a Gwledig
www.aber.ac.uk/ibers




Swyddfeydd ar gael heddiw i gwmnïoedd sy'n cychwyn o'r newydd a chwmnïoedd sy'n dymuno ehangu

Cysylltwch â ni: Swyddfeydd AIEC, Gogerddan, Penrhyncoch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EE

innovate@aber.ac.uk | 01970 621809 | www.aberinnovation.com

[@aberinnovation](https://twitter.com/aberinnovation) | [in](https://www.linkedin.com/company/aberystwyth-innovation-and-enterprise-campus-ltd) Aberystwyth Innovation and Enterprise Campus Ltd.

Campws Arloesi a Menter Aberystwyth



Ariannwyd Campws Arloesi a Menter Aberystwyth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, drwy Lywodraeth Cymru; gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biologol (BBSRC) a chan Brifysgol Aberystwyth.